5.209

# PLANT Y TLOTTY.

*(Geiriau Cantata at wasanaeth Corau Plant.)*
*Rhodda Pwyllgor Eisteddfod Carmel Treherbert wobr o 10p. am y gerddoriaeth oreu arnynt Nadolig,* 1878.
*Beirniad, Mr. D. Jenkins, M. B. U. C. W.*

### RHIF 1.
CYDGAN—MOLAWD DYNGARWCH.

O molwn ddyngarwch yn uchel ein llef,
Hyn yw ein dyledswydd i gyd,
Hon ydyw y dduwies anfonodd y Nef
I noddi amddifaid y byd:
Pan guddiwyd ein cysur dan gwrlid y bedd,
A ninau a'n llygaid yn lli;
Sisialodd dyngarwch mewn geiriau o hedd,
Fod cartref a nodded i ni.

### RHIF 11.
UNAWD—IEUAN.

Hawdd yw canu mawl dyngarwch
O dan nodded aden heddwch,
Am ei thyner ofal am
Blentyn bychan fu yn cwyno
Heb un glust yn gwrando arno,
Wedi colli tad a mam.

Ond er hyny hawddach wylo
Pan ddaw awel adgof heibio
O'r hen fynwent werdd gerllaw;
Cofio pwy sydd yno'n huno,
Cofio *pwy* fu'n fy nghofleidio
Sydd yn troi'r llawenydd draw.

### RHIF III.
UNAWD—MARTHA.

D'wedwch imi beth yw hawddfyd
Yn y byd lle 'rwyf yn byw?
Gwn o'r goreu beth yw adfyd,
Peth cynefin imi yw;
Gwyddwn *gynt* beth oedd llawenydd
Yn gorlanw'm calon iach;
Ond aeth heibio mewn ystormydd,
Pan yr oeddwn blentyn bach.

Gwelais dad a mam yn gwenu
Ar eu geneth fechan gu!
Clywais dad a mam yn canu
Yn y dyddiau dedwydd fu;
Ond mi welais wedi hyny,
Fedd yn cauad arnynt hwy:
Gwelais ddydd fy amddifadu,
Ac ni welais wynfyd mwy.

Teimlais beth oedd gorfod myned
Dros hen drothwy'r bwthyn tlws;
Teimlais wedyn beth oedd cerdded
Gyda'm cwyn o ddrws i ddrws
Ond mi deimlais law dyngarwch
Yn fy arwain i'r lle'r wyf;
Ac mi ganaf ddiolchgarwch
Am gael nawdd yn Nhloty'r Plwyf.

### RHIF IV—CYDGAN.

Fel Mai yn hardd wisgo y coedydd,
A Hydref yn gwywo y dail,
Mae galar a bysedd llawenydd
Yn taro pob tant ar yn ail:
Ond nodau llawenydd sy'n taro pob clyw,
Wrth ganu fod Tad yr amddifaid yn fyw.

### RHIF V.
UNAWD *Gwen Fach.*

O mami, mami anwyl,
Pa le, pa le mae hi?
Nid ydyw yn fy ymyl
I sychu'm dagrau i;
Mae yma fam! na, na, mae hon
Yn chwerthin am fy mhen;
Mae yma fam! na, canu'n llon
Wna hon pan wyla Gwen.

O! mami, anwyl mami,
Paham na ddaw yn ol
I ganu "lwli babi"
Am gwasgu idd ei chol?
Mae yma fam! na, ni chaf fi
Gan hon ond gwawd a sen;
Mae yma Fam! na, nid yw hi,
Byth yn cusanu Gwen.

### RHIF VI.
DEUAWD—BRAWD A CHWAER.

*Hywel.*

O Maggie, pam mae deigryn
Yn treiglo dros dy rudd!
Ai cofio'r dyddiau dedwydd
Pan oeddem gyda'n gilydd,
Sy'n gwneud dy wedd yn brudd!

*Maggie.*

Mae wylo fel *anadlu*,
Yn un a'm bywyd i,
Oddiar y du ddiwrnod
Yr aeth fy mam i'r beddrod,
A'r dydd y collais di.

*Hywel.*

O! paid ag wylo Maggie
Bydd lawen fel dy frawd;
Daw eto ddyddiau canu,
Mae'r Nefoedd yn gofalu
Am gysur plentyn tlawd.

*Maggie.*

Mae'r adar bach yn canu,
Fel pe yn ceisio am
[illegible] ninau ganu hefyd,
[illegible]an orphwys ar addewid
"Hen Feibl mawr fy mam."

*Y Ddau.*

Mae eto ddyddiau hyfryd,
Nid yn mhell:
Fe ddaw ar ol yr adfyd
Ddyddiau gwell.
A chanwn a chanwn yn beraidd ein llef
Mae plant y Tylotty dan ofal y nef.

### RHIF VII.
CYDGAN.

Os ydym yn amddifaid,
Heb genym dad na mam,
Mae genym hoff Warcheidwaid
I'n cadw rhag pob cam;
Rhwng muriau Tlotty'r Undeb
Cawn wledd o hedd o hyd;
Mae gofal heb diriondeb
Yn well na gwg y byd.

### RHIF VIII.
UNAWD—*Y Famaeth.*

A'r orsedd fy ngofal pryderus yr wyf
Yn nghanol amddifaid yn Nhlotty y Plwyf;
Mae cloch fy nyledswydd yn galw o hyd
Am gadw'r anwyliaid yn hapus a chlyd.

Mewn breuddwyd gofidus rhyw blentyn dinam
Yn fynych a glywaf yn galw ei fam;
Bryd hyny, mi dybiaf fod adlais o'r Nef,
Yn d'wedyd bydd dyner o hyd wrtho ef.

Pwy wyr nad oes engyl yn dyfod bob cam
O Wynfa i weled anwylyd ei fam,
A dychwel drachefn i ddweyd fel wyf fi
Yn sychu brwd ddeigryn ei heilun bach hi.

### RHIF IX.
UNAWD—*Gwilym.*

Bu genyf fam a thad,
A chartref bychan llon;
A llawn o bob mwynhad
Yr oedd fy ieuanc fron;
Ni ddeuai trallod heibio
I'm blino ar ei hynt;
Llawenydd ac anwyldeb oedd
I'm hamgylchynu gynt.

Pan giliai plant y wlad
Rhag ofn y "bwci bo,"
Ar dyner lin fy nhad
Mi wnawn ei watwor o;
A phan ofidiai'm calon
Dan bwys *tybiedig* gam,
Y balm i'w gwneud yn berffaith iach,
Oedd cusan gan fy mam.

Chwareuai oenig fach
Ei champau gylch y ty;
A chanwn inau'n iach
Wrth chwareu gyda hi;
Amddifad oedd yr oenig
O dan fy ngofal i;
Ac heddyw fel yr oenig fach.
Amddifad ydwyf fi.

### RHIF X.
DEUAWD—DWY CHWAER.

*Myfanwy.*

Pa le mae'n cartref bach yn awr,
Lle buom lawen gynt;
Ni chlywwn swn y dderwen fawr
Yn ymladd gyda'r gwynt;
Pa le mae'r plant fu yno
I'n lloni ni ein dwy?
A gawn eu gweled eto,
A chwareu gyda hwy?

*Olwen.*

I ysgol fach y pentref draw,
Mor llon y teithiem ni;
A chân yr adar ar bob llaw,
A blodau ar bob tu;
A hyfryd oedd ein hymdaith
Ar hyd y droedffordd gul,
Lle canwyd emyn ganwaith
Wrth fynd i'r ysgol sul.

Y DDWY.

Ond heddyw dysgwn ddeddfau moes,
A gwersi addysg bur,
A fyddant ini trwy ein hoes
Yn well na pherlau'r tir;
Mae'r Tlotty'n well na'r cartref
Sy'n eiddo llawer un;
Mae yma hedd a thangnef,
A pharch i Dduw a dyn.

### RHIF XI.
CYDGAN.

Ehedodd ein dyddiau dedwydd
Fel buain wenoliaid o'r tir:
O Iesu, anfon lawenydd
Fel gwenol yn ol cyn hir;
Edrychwn dros geulan y beddrod
Lle gwelsom ein cysur yn myn'd;
Edrychwn o'n hamgylch mewn syndod,
A gwelwn yr *estron* yn *ffrynd*,
Mae'r awel yn cwyno o hyd
Ar gangau yr yw;
A ninau a ganwn yn nghyd
Mae Tad yr amddifaid yn fyw.

### RHIF XII.
TRIAWD.

*Elen.*

Gan hiraeth dwys a chyni,
Fy nghalon sydd ar dori,
A'm llygaid bach yn llyn;
Mae'r byd i gyd yn gwgu
A chysur wedi cefnu
Ar blant y Tyddyn Gwyn.

*Gwendolen.*

Aeth heibio adeg canu,
Mae telyn fach y teulu
Yn fud dan frig yr yw,
Ond *melus boen* yw cofio
Y gynes adeg hono
Pan oedd fy mam yn fyw.

*Gomer.*

Wyf heddyw yn amddifad,
Yn wrthrych cydymdeimlad,
A rhos fy ngruddiau'n wyw;
Daeth pruddder yn lle'r gwenau
Fu'n chwareu ar fy ngruddiau
Pan oedd fy nhad yn fyw.

*Y Tri.*

Yn nghanol ein gofidiau,
Dyngarwch sych ein dagrau
A'i thyner gadach gwyn,
A chysur goruwch eisiau
Wrth fwrdd yn llawn *heb foethau*
Gawn rhwng y muriau hyn;
Ond erys ein serchiadau
Fel iorwg am hen furiau
Y bwthyn ar y bryn.

### RHIF XIII.
UNAWD—*Plentyn y Meddwyn.*

Ar ol fy anwyl fam yr wyf
Yn nhloty'r Plwyf yn cwyno;
Ni chaf yn agos nac yn mhell,
Ymgeledd gwell na hono;
Hi roddodd gusan ar fy ngrudd
Pan oedd yn brudd a gwelw;
Ac hedeg wnaeth i arall wlad
Pan oedd fy nhad yn feddw.

Trwy loewon ddagrau'm calon gu,
Mi welais ddu ddiwrnod,
A'r unig un wrandawai'm cwyn,
Yn cael ei dwyn i'r beddrod:
Mi welais hawddfyd teg yn ffoi,
A'r byd yn troi'n fy erbyn;
A theimlais bicell lem sarhad
Am fod fy nhad yn feddwyn.

Aeth seren der yr aelwyd dlos
Dan gwmwl nos i huno;
Ac ni ddaeth llewyrch gwyneb haul,
I lawen ail oleuo;
Mi welais stormydd yn crynhoi,
A'm llwyr amdoi mewn dychryn;
Ac aeth fy nghartref bach ar frys
I borthi blys y meddwyn.

### RHIF XIV.
PEDRAWD—*Gwarcheidwaid*

Dyngarwch a'n geilw yn nghyd
I noddi amddifaid y byd,
A ninau atebwn yr alwad o hyd.

Mae teimlad o nefol fwynhad
Yn mronau gwarcheidwaid y wlad,
Wrth noddi y plentyn heb fam ac heb dad.

Mae'r bychan amddifad yn frawd
I feibion anrhydedd a ffawd,
A phlentyn y nefoedd yw'r plentyn tylawd.

Yn nhloty yr Undeb yn awr,
Ein gofal a'n gwaith sydd yn fawr,
A Duw ar ein hymdrech yn edrych i lawr.

Dewch blant y Tyloty yn nghyd,
Mae'n gofal am danoch i gyd,
Am hyny diolchwch, a chanwch o hyd.

### RHIF XV.
Y GYDGAN ORPHENOL—*Molawd Dyngarwch.*

O molwn ddyngarwch yn uchel ein llef
Hyn yw ein dyledswydd i gyd,
Hon ydyw y dduwies anfonodd y Nef
I noddi amddifaid y byd:
Pan guddiwyd ein cysur dan gwrlid y bedd,
A ninau a'n llygaid yn lli;
Sisialodd dyngarwch mewn geiriau o hedd,
Fod cartref a nodded i ni.

BRYNFAB.

(Thomas Williams)

XROS 2441456

5209

TREHERBERT A JU 30 78



To Mr D. W. Jones,
(Dafydd Morganwg),
Hirwain,
Aberdare.

From R. J. Williams,
Treherbert.

Book Post
29/6/1878.